lawndal i Lowyr

dti

Hawliadau Afiechydon Glo

LLYTHYR NEWYDDION 11

AWST 2005

Lôn Gyflym: Cynigion yn Mynd yn Fyw

- **450,000 o daliadau i lowyr, gweddwon neu deuluoedd**
- **£2.6 biliwn wedi ei dalu hyd yn hyn**
- **270,000 o daliadau clefyd anadlol**
- **180,000 o daliadau Bysedd Gwyn trwy Ddirgryniad**
- **Clefyd anadlol – digolledi ad o £1.5 biliwn wedi ei dalu hyd yn hyn**
- **Bysedd Gwyn trwy Ddirgryniad – digolledi ad o £1.1 biliwn wedi ei dalu hyd yn hyn**

Neges gan Malcolm Wicks, y Gweinidog Ynni

Ar ôl yr etholiad cyffredinol diwethaf, etifeddais i'r cyfrifoldeb am hawliadau afiechydon glo gan Nigel Griffiths. Carwn ddiolch iddo am ei waith caled yn sicrhau bod digolledi ad yn cael ei dalu i'r rhai sy'n gymwys o dan ddau gynllun afiechydon glo yr Adran Masnach a Diwydiant. Fel Gweinidog newydd, byddaf yn gwneud yn siŵr fod glowyr a'u teuluoedd yn derbyn y digolledi ad y mae ganddynt hawl iddo. Edrychaf ymlaen hefyd at barhau a datblygu cyflymiad y broses clefyd anadlol trwy'r trefniadau lôn gyflym newydd.

Hyd yn hyn, fe drefnwyd mwy na 450,000 o daliadau, gan roi i lowyr a'u teuluoedd £2.6 biliwn.

Ar 21 Gorffennaf, cyhoeddodd Malcolm Wicks arolwg allanol o weinyddiad y DTI o gynlluniau iechyd Glo Prydain gynt. Am ragor o wybodaeth: www.dti.gov.uk/coalhealth/

Cynigion Risg

Pleser gan yr Adran yw cofnodi i'r cynigion risg cyntaf, yn unol â'r arfaeth, gael eu cyflwyno ar 28 Chwefror 2005 i fwyngloddwyr sy'n fyw. Yn ôl sefyllfa 14 Awst, roedd 39,356 o gynigion lôn gyflym wedi'u gwneud ac o'r rhain fe dderbyniwyd 29,521.

Disgwylid i ryw 60% gael eu derbyn. Hyd yn hyn, derbyniwyd dros 90% o fewn y 56 diwrnod y bydd y cynnig risg ar agor. Ers 21 Chwefror 2005, atelir dros dro geisiadau lle nad oes sôn am Glefyd Rhwystrol Hirfaith yr Ysgyfaint (COPD) ar y dystysgrif marwolaeth. Rhagwelir y bydd modd i weddwon a hawlwyr ystadau ddewis cynigion risg o Fedi 2005 ymlaen. Cyfyngir y cynigion i'r hawlwyr hynny lle nad oes sôn am COPD ar y dystysgrif marwolaeth. Y tariff o dan y Cynllun Cynigion Risg ar gyfer Ymadawedigion yw £1,200 i weddwon a £1,000 i ystadau. Dylai hawlwyr ymgynghori â'u cyfreithwyr i gael gweld a ddylent ystyried cynnig o'r fath. Bydd hawlwyr nad ydynt am ymuno â'r drefn hon yn cadw'r hawl i gael asesiad meddygol llawn.

Clefyd Anadlol: y manylion diweddaraf

HAWLIADAU WEDI EU COFRESTRU

- Cafwyd rhyw 610,000 o hawliadau cyn y terfyn amser, ond mae hyn yn cynnwys rhai ceisiadau dyblyg posibl y mae angen eu dilysu.

HAWLIADAU WEDI EU SETLO

- Rydym yn dal i wneud cynnydd da ac mae 226,000 o'r hawliadau hyn bellach wedi eu setlo'n llawn.

ASESIADAU MEDDYGOL

- Rydym wedi cwblhau 264,000 o asesiadau meddygol, sef tua 80% o'r hawlwyr hynny y cawsom archiadau a holiaduron hawlio ar eu cyfer.

IAWNDAL WEDI EI DALU

- Talwyd gennym bellach gyfanswm o £1.5 biliwn fel iawndal i hawlwyr.

TERFYN AMSER

- Nid yw'r Adran yn derbyn hawliadau o dan y Cynllun Clefyd Anadlol mwyach, ond mae modd cyflwyno hawliadau o dan drefn cyfraith gwlad. Os credwch y gall fod hawliad dilys gennych, dylech gysylltu â chyfreithiwr.

IAWNDAL WEDI EI GYNNIG OND YN DAL I GAEL EI YSTYRIED

- At hyn, mae cyfreithwyr neu hawlwyr yn dal i ystyried tua 27,000 o gynigion, gan gynnwys rhai y dilynir ymholiadau gyda Capita, trinwyr ceisiadau'r Adran, yn eu cylch. Mae'r DTI a'r cyfreithwyr yn gweithio gyda'i gilydd i setlo'r rhain lle bynnag y bo modd.

HAWLIADAU PEN Y PWLL YN UNIG

- Nid oedd dyfarniad yr Uchel Lys ym 1998 yn darparu ar gyfer glowyr a beryglwyd gan lwch pen y pwll yn unig, ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys o dan y trefniadau Trin Hawliadau. Cyngor meddygol yr Adran yw nad oedd lefel y llwch anadladwy (NID llwch gweladwy) mewn swyddi pen pwll yn ddigon i achosi clefyd yr ysgyfaint. Buasai'n fwriad gan gyfreithwyr y glowyr i herio hyn o dan ymgyfreithiad newydd ond rhoesant wybod i'r llys yn Rhagfyr 2004 nad oeddent mwyach am fwrw ymlaen. Gall unrhyw weithiwr pen-pwll yn unig sy'n teimlo fod ganddo hawliad cyfiawn ddilyn hyn yn y ffordd arferol o dan achos cyfraith gwlad. Dylai ymgynghori â'i gyfreithiwr.

Hawliadau Bysedd Gwyn trwy Ddirgryniad: manylion diweddaraf

HAWLIADAU WEDI EU COFRESTRU

- Nifer yr hawliadau a gofrestrwyd yw 170,000.

HAWLIADAU WEDI EU SETLO

- Rydym yn gwneud cynnydd da ac wedi setlo bellach 106,000 o'r hawliadau hyn yn llawn.

TALIADAU INTERIM

- Rhoesom 99,000 o daliadau interim.

IAWNDAL WEDI EI DALU

- Rydym bellach wedi talu iawndal cyfan o £1.1 biliwn i hawlwyr.

TERFYN AMSER

- Nid yw'r Adran yn derbyn hawliadau o dan y cynllun Bysedd Gwyn mwyach, ond mae modd cyflwyno hawliad o hyd o dan drefn cyfraith gwlad. Os credwch y gall fod hawliad dilys gennych, dylech gysylltu â chyfreithiwr.
- Fel terfynau amser pellach, pennwyd 31 Ionawr ar gyfer hawliadau Colli Cyflog, 31 Mawrth ar gyfer hawliadau Gwasanaeth byw a 30 Mehefin 2005 ar gyfer hawliadau Grŵp 3.

HAWLIADAU GWASANAETH

- Daethpwyd i gytundeb ar wahân â'r cyfreithwyr hawlio ar gyfer hawlwyr sydd angen cymorth ychwanegol i wneud gorchwylion tŷ megis garddio a hunan-ymdopi.
- Mae angen archwiliad meddygol ar wahân ar gyfer hyn. Erbyn diwedd Mehefin, roedd cyfanswm o ryw 15,800 o archwiliadau wedi eu cwblhau a bron 10,900 o gynigion wedi eu gwneud yng nghyswllt Gwasanaethau.

HAWLIADAU GRŴP TRI

- Cyflwynwyd tua 16,500 o hawliadau Grŵp 3. Cafodd nifer o'r rhain eu tynnu'n ôl wedyn gan gyfreithwyr yr hawlwyr. Cwblhawyd dros 11,000 o archwiliadau Grŵp 3. Mae rhyw 2,600 o hawliadau'n aros eu harchwilio.
- Mae'r Adran yn hyderus y cwblheir archwilio cychwynnol y mwyafrif o'r hawliadau Grŵp 3 erbyn diwedd Medi 2005 lle mae hynny o fewn ei phŵer.

CAU'R CYNLLUN

- Mae'r cynllun Bysedd Gwyn trwy Ddirgryniad wedi cau ers dros 2 flynedd ac mae'r Adran wedi dyfeisio rhaglen ar gyfer sicrhau setlo terfynol i bob hawliad sy'n weddill. I'r nod hwn, mae wedi herio'i chontractwyr trwy amserlen dynn o ran Darpar Ddyddiadau Diwedd Cynllun a roddwyd gerbron cyfreithwyr yr hawlwyr.
- Cyflwynwyd trefn ar gyfer delio â hawliadau sy'n 'sownd' yn y system ers tro byd trwy ddiffyg gweithredu ar ran yr hawliwr neu ei gynrychiolydd. Cafodd y broses hawliadau ataliedig hon ei chymeradwyo gan y Barnwr a'i hailgychwyn o 1 Chwefror ymlaen ar gyfer lawndal Cyffredinol ac o 13 Mehefin ymlaen (am y tro cyntaf) ar gyfer hawliadau Gwasanaeth.

Y 30 ETHOLAETH UCHAF AR GYFER DIGOLLEDIAD CLEFYD ANADLOL A BYSEDD GWYN TRWY DDIRGRYNIAD

Etholaeth	Taliadau wedi eu Rhoi	Cyfanswm wedi ei Dalu
Easington	13,090	£94m
Barnsley East And Mexborough	14,651	£86m
Hemsworth	12,903	£74m
Bolsover	13,909	£72m
Sherwood	13,772	£68m
Mansfield	11,759	£63m
Bassetlaw	10,524	£63m
Ashfield	12,246	£62m
Doncaster North	9,964	£61m
Merthyr Tudful a Rhymni	7,811	£58m
Ogwr	7,803	£56m
Rhondda	7,331	£54m
Don Valley	8,967	£53m
Barnsley Central Boro	9,369	£53m
Cwm Cynon	7,053	£53m
Wansbeck	8,086	£51m
Pontefract And Castleford	8,158	£47m
Caerffili	6,634	£44m
Barnsley West And Penistone	7,997	£43m
Houghton And Washington East Boro	6,049	£42m
Islwyn	6,169	£39m
Rother Valley	6,718	£38m
Blaenau Gwent	6,098	£38m
Wentworth	6,623	£38m
Carrick, Cumnock & Doon Valley	5,345	£33m
North East Derbyshire	5,817	£29m
North Durham	4,025	£28m
Castell-nedd	4,104	£27m
Cannock Chase	4,772	£27m
Normanton	4,059	£25m

Prif ystadegau Awst 2005

	CLEFYD ANADLOL	BYSEDD GWYN TRWY DDIRGRYNIAD
HAWLIADAU WEDI EU COFRESTRU	579,000*	170,000
HAWLIADAU WEDI EU SETLO'N LLAWN	226,000	84,000
TALIADAU INTERIM	82,000	99,000
CYFANSWM YR IAWNDAL A DALWYD	£1.5bn	£1.1bn

** Heb gynnwys hawliadau lleiafswm manylion y mae angen cadarnhau nad ydynt yn rhai dyblyg*

Gwybodaeth Bellach

- Am wybodaeth fanylach a dadansoddiad o'r iawndal o etholaeth i etholaeth, ewch i www.dti.gov.uk/coalhealth
- Am wybodaeth ynghylch hawliad unigol, cysylltwch â'ch cyfreithiwr
- Gall cyfreithwyr weld gwybodaeth am hawliadau unigol yn www.coalclaims.com

Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi ei ailgylchu gyda lleiafsgor o 85 gan Wasg Ei Mawrhydi.
Argraffwyd gyntaf Medi 2005. Adran Masnach a Diwydiant. http://www.dti.gov.uk/
© Hawlfraint y Goron. DTI/Pub 7992/45k/09/05/NP. URN 05/299b